Gofal Anifeiliaid (Lefel 2)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Bwydo anifeiliaid
- Paratoi llety anifeiliaid
- Hwsmonaeth anifeiliaid
- Deall ac ymdrin a materion iechyd anifeiliaid
- Deall ymddygiad anifeiliaid
- Iechyd a diogelwch yn y gweithle

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd a Choleg Meirion Dwyfor, Glynllifon ac yn cyfateb i 2 TGAU.

Byddwch yn treulio bore neu brynhawn llawn ar safle Glynllifon

Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Glynllifon.

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu.

Bydd gofyniad i wneud rhywfaint o waith cwrs tu allan i'r Coleg.

Beth fyddaf ei angen?

Ymroddiad a disgyblaeth i weithio'n gydwybodol a gofalus mewn amgylchedd gweithle

Offer amddiffynnol personol (esgidiau diogelwch, oferôls a chôt wen)

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu gwaith a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs, cewch ddewis un o'r llwybrau canlynol:-

- Dilyn cwrs llawn amser Lefel 2 neu Lefel 3 Gofal Anifeiliaid ar safle Glynllifon.
- Dilyn un o amrywiaeth o gyrsiau academaidd neu alwedigaethol yn un o safleoedd Grŵp Llandrillo Menai.
- Gweithio yn y diwydiant gofal anifeiliaid

Syniadau Gyrfaol

- Nyrs milfeddygol
- Swyddog lles anifeiliaid
- Hyfforddwr anifeiliaid
- Rheoli neu weithio mewn sw neu parc bywyd gwyllt
- Rheoli neu weithio mewn siop anifeiliaid anwes neu siop manwerthu anifeiliaid